

Mr R Passmore
BMI Healthcare Limited
BMI Healthcare House
3 Paris Garden
Southwark
London
SE1 8ND

Llinell uniongyrchol: 0300 062 8163
Ffacs: 0300 062 8387
E-bost: Philomena.price2@cymru.gsi.gov.uk

23 Ebrill 2014

Annwyl Mr Passmore,

Re: Ymweliad dirybudd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ag Ysbyty Werndale ar 28 Mawrth 2014

Fel y gwyddoch, gwnaed ymweliad dirybudd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ag Ysbyty Werndale ar 28 Mawrth 2014. O ganlyniad i'r ymweliad, amlygwyd rhai meysydd nodedig, gan gynnwys y canlynol:

- Roedd y gwaith papur ynglŷn â rheolaeth glinigol a chyfarfodydd archwilio clinigol yn cynnwys gwybodaeth lawn ac yn cymryd i ystyriaeth y cyfarfodydd a'r gweithredu blaenorol.
- Y nifer a'r ystod o staff a oedd ar ddyletswydd, a'r systemau i sicrhau bod gwybodaeth gyfoes gan y staff am ddatblygiad ymarfer.
- Hyfforddiant gorfodol a datblygol parhaus i'r staff, gyda dwy wythnos wedi eu neilltuo ym mis Ionawr ar gyfer diweddarar hyfforddiant gorfodol, a chynllun hyfforddi wedi ei sefydlu ar gyfer gofynion addysgol eraill.
- System wedi ei sefydlu i sicrhau bod cyfarpar a stoc yn cael eu newid a'u hailgyflenwi yn ôl yr angen, gan gadw'r meintiau lleiaf o stoc yn yr adrannau ond gan sicrhau bod stoc ar gael o storfa ganolog pan fo angen. Mae hyn wedi lleihau'r angen /am storfeydd mewn adrannau ac wedi gwella hygyrchedd y stoc sydd yno. Mae hyn i'w ganmol fel arfer da.

- Roedd y staff yn frwd ynghylch y datblygiadau yn yr ysbyty. Roeddent yn mynegi eu hymdeimlad o berchnogaeth y datblygiadau hyn a'u parodrwydd i gymryd rhan ynddynt. Teimlent fod modd iddynt ddylanwadu ar y newidiadau a'r datblygiadau, er budd pennaf defnyddwyr y gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

Amlygwyd y materion isod hefyd, ac ar ddiwedd yr ymweliad, rhoddwyd trosolwg ohonynt ar lafar i gyfarwyddwr yr ysbyty (y rheolwr cofrestredig) ac i'r (darpar) reolwr cofrestredig. Rhaid nodi bod yr uwch dîm rheoli eisoes wedi cymryd camau rhagweithiol i sicrhau'r canlyniadau sy'n ofynnol

Gofynion newydd o'r arolygiad hwn:

Cam gofynnol	Amserlen cwblhau	Rhif y rheoliad
Cafwyd bod oesoedd nifer o'r polisïau wedi dod i ben a bod gofyn eu hadolygu	48 awr Cwblhawyd 28.3.2014	Rheoliad 9 (1)
Cafwyd bod oes y polisi Colli Rhyddid wedi dod i ben a bod gofyn ei adolygu	48 awr Cwblhawyd 28.3.2014	Rheoliad 38(1) Safon C29 (2)
Cafwyd bod oesoedd nifer o'r polisïau Adnoddau Dynol wedi dod i ben a bod angen eu hadolygu. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac Iechyd Galwedigaethol	48 awr Cwblhawyd 28.3.2014	Rheoliad 9(1)(e)(h) Rheoliad 20(3)(a)(b)&(4)
Cafwyd bod oes y polisi Cyfarpar wedi dod i ben a bod angen ei adolygu	48 awr Cwblhawyd 28.3.2014	Rheoliad 9(d)
Cafwyd bod oes y polisi Rheoli Ymddygiad Heriol wedi dod i ben a bod angen ei adolygu	48 awr Cwblhawyd 28.3.2014	Rheoliad 9(1)(e)(k) Rheoliad 9(2)(a)(b)(c)(d)
Roedd llofnodion yn eisiau yn y Llyfr Cofnodi Cyffuriau a Reolir. Mae llofnodion yn ofynnol ar dair llinell, sef: wrth ddarparu, wrth weini ac wrth waredu cyffuriau, ac nid oedd y llofnodion hyn i gyd yn bresennol.	Ar unwaith ac yn barhaus Dechreuwyd gweithredu ar 28.3.2014 a chyflwynwyd cynllun gweithredu a oedd yn cynnwys y camau a gwblhawyd a'r rhai parhaus a ymgwymerwyd	Rheoliad 9(m) a 15 (5) (a) (b) Rheoliad 15 (5) (a) (b)

<p>Rhestr o lofnodion staff yn ofynnol ar gyfer Theatrau</p> <p>Ymgynghorwyr i lofnodi cynlluniau triniaeth a seiliwyd ar ddewisiadau</p>	<p>Ar unwaith ac yn parhaus Dechreuwyd gweithredu ar 28.3.2014 a chyflwynwyd cynllun gweithredu a oedd yn cynnwys y camau a gwblhawyd a'r rhai parhaus a ymgwymerwyd.</p> <p>48 awr Dechreuwyd 31. 3 2014</p>	<p>Rheoliad 15(1)(a)(b)(c)</p>
---	---	--------------------------------

Argymhellion Arfer Da:

- Mae gofyn i bob un o'r staff sy'n ymwneud â throsglwyddo gofal rhwng adrannau lofnodi cofnodion y cleifion.
- Dylid nodi'n eglur unrhyw newidiadau dros dro yn y defnydd o ystafelloedd. *Cwblhawyd y cam hwn yn ystod yr ymweliad.*
- Roedd datganiad o ddiben yr ysbyty wedi ei adolygu a chopi wedi ei anfon at AGIC. Roedd angen cynnwys datganiad dros dro yn y datganiad o ddiben i gadarnhau bod y ddogfen gyfredol yn ddilys. *Cwblhawyd y cam hwn ar adeg yr ymweliad.*

Hoffai Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ddiolch i aelodau'r staff i gyd am eu hamser a'u cydweithrediad yn ystod yr ymweliad.

Mae croeso ichi gysylltu â mi os dymunwch drafod cynnwys y llythyr hwn.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Ms Jackie Jones, Cyfarwyddwr yr Ysbyty, y rheolwr cofrestredig (dynodedig) yn ysbyty Werndale.

Yr eiddoch yn gywir



Phil Price
Rheolwr Arolygu